Rhif: WG29401

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Gynigion i Gyflwyno Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i Lifogydd ac Argyfyngau Eraill yn ymwneud â Dŵr:

## Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017

Dyddiad cyhoeddi: **15 Medi 2016**
Camau i'w cymryd: **Ymatebion erbyn 22 Rhagfyr 2016**

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio'ch barn ar y cynigion i gyflwyno dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr.

**Sut i ymateb**

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd i'w gweld yma:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dyletswydd-statudol-ar-awdurdodau-tan-ac-achub-cymru-i-ymateb-i-ddigwyddiadaun-ymwneud

Neu gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd wedi'i darparu ar wahân, a'i hanfon drwy'r e-bost i:

fire@wales.gsi.gov.uk

neu i'r cyfeiriad isod

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **dydd Iau 22 Rhagfyr 2016**

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Dolen at yr ymgynghoriad at y we:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dyletswydd-statudol-ar-awdurdodau-tan-ac-achub-cymru-i-ymateb-i-ddigwyddiadaun-ymwneud

**Manylion Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

e-mail: fire@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 8226

**Diogelu Data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# YMGYNGHORIAD AR GYNIGION I GYFLWYNO DYLETSWYDD STATUDOL AR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU I YMATEB I ARGYFYNGAU LLIFOGYDD AC ARGYFYNGAU ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG Â DŴR

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi manylion am gynigion Llywodraeth Cymru i ymestyn dyletswyddau Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) i gynnwys argyfyngau yn ymwneud â llifogydd a dyfroedd mewndirol. Mae Gorchymyn drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

## CEFNDIR

### *DYLETSWYDDAU PRESENNOL FRAs*

2. Yn ogystal ag ymladd tanau a hyrwyddo diogelwch tân, mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffordd[1] a digwyddiadau penodol eraill megis arllwysiadau cemegol, pobl wedi'u dal mewn adeiladau sydd wedi dymchwel a damweiniau yn ymwneud â mathau eraill o drafnidiaeth[2]. Nid oes gan FRAs ddyletswydd o'r fath mewn perthynas â llifogydd neu argyfyngau sy'n gysylltiedig â dyfroedd mewndirol.

3. Er hynny, mae FRAs yn ymateb i argyfyngau llifogydd a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â dyfroedd mewndirol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys materion cymharol fach megis pwmpio dŵr allan o eiddo os bydd pibellau wedi byrstio a helpu i achub pobl o ddŵr ac ymdrin â llifogydd mawr sy'n fygythiad difrifol i fywydau pobl ac sy'n debygol o wneud difrod i eiddo. Gan nad oes yna ddyletswydd ar FRAs i ymateb i'r digwyddiadau hyn, mae gallu FRAs i ymateb i lifogydd ac achub pobl o ddŵr mewndirol yn dibynnu ar eu pwerau cyffredinol i ymateb i ddigwyddiadau eraill sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf neu salwch[3].

Yn y ddogfen hon:

- Ystyr *llifogydd* yw sefyllfa lle mae tir nad yw fel arfer wedi'i orchuddio â dŵr yn cael ei orchuddio â dŵr. Mewn theori, gallai hyn gynnwys y pwll lleiaf hyd yn oed; ond dim ond llifogydd a all achosi marwolaeth neu anaf difrifol (gweler paragraff 22) fyddai'n cael eu cynnwys o dan y ddyletswydd rydym yn ei chynnig.
- Ystyr *achub o ddŵr* yw unrhyw weithred lle mae pobl sydd wedi'u dal mewn dŵr, ar ddŵr neu yn ymyl dŵr yn cael eu hachub. At ddibenion y Gorchymyn, byddai hyn yn cynnwys achub pobl o ddŵr llifogydd a dyfroedd mewndirol parhaol. Noder ein bod ond yn cynnig creu dyletswydd i achub *pobl* o ddŵr; nid anifeiliaid anwes, da byw nac eiddo.
- Mae *dŵr mewndirol* yn cynnwys afonydd, nentydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr a chwareli sydd wedi'u llenwi â dŵr. Nid yw'n cynnwys pyllau nofio neu badlo.

---

[1] Adrannau 6 i 8 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
[2] Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007.
[3] Adran 11 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

*YR ACHOS DROS NEWID*

4. Yng Nghymru, mae tua 208,500 o eiddo yn wynebu risg llifogydd o afonydd neu'r môr, ac mae tua 163,000 o eiddo yn wynebu risg o lifogydd dŵr wyneb[4]. Bydd newidiadau yn ein hinsawdd, megis stormydd mwy difrifol a hafau a gaeafau gwlypach, yn cynyddu'r risg hwnnw. Mae'r DU wedi gweld sawl achos difrifol o lifogydd dros y blynyddoedd diwethaf: yng Ngwlad yr Haf yn 2014, yng ngogledd Lloegr yn 2015, yn ogystal ag yng Nghymru yn Sir Ddinbych yn 2012 ac ar hyd coridor yr A55 yn 2015. Cafodd hyn ei gydnabod yn Fframwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub 2016[5] a ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu ac ymgynghori ar ymestyn swyddogaethau statudol FRAs i gynnwys argyfyngau yn ymwneud â llifogydd ac achub o ddŵr. Roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn pan ymgynghorwyd ar y Fframwaith yn ystod haf 2015.

5. Fel y nodir ym mharagraff 3 uchod, er bod FRAs Cymru eisoes yn ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol gan ddefnyddio eu pwerau cyffredinol a'u hadnoddau presennol, nid oes dyletswydd benodol arnynt i wneud hynny. Mae'r achos dros ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs ymateb i ddigwyddiadau o'r fath fel a ganlyn:-

   (a) Mae llifogydd difrifol yn peri pryder mawr ac mae angen amddiffyniad statudol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol. Mae'n gallu cael effaith ddifrifol ar bobl, yr amgylchedd a'r economi ac, ar hyn o bryd, nid oes ymateb gwarantedig na safonol i ddigwyddiadau o'r fath;

   (b) Mae FRAs o dan bwysau i leihau costau ac efallai y byddent yn ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn orfodol fel ffordd o wneud hynny. Er y gall hynny fod yn briodol i rai gwasanaethau, ni fyddai'n dderbyniol pe na bai FRAs yn ymateb i lifogydd;

   (c) Gan fod FRAs eisoes yn ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol yn rheolaidd, ond nad oes yna ddyletswydd arnynt i wneud hynny, mae hyn yn arwain at ddiffyg sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldebau FRAs a'r angen am hyfforddiant, offer ac yswiriant mewn cysylltiad â digwyddiadau o'r fath;

   (d) Yn ymarferol, mae FRAs yn tueddu i wneud cyfraniad allweddol wrth ymateb i achosion o lifogydd ac achub o ddŵr. Yn aml, mae asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y lluoedd arfog a chyrff gwirfoddol megis yr RNLI, yn cyfrannu i ryw raddau hefyd. Fodd bynnag, nid oes arweinydd clir, felly gall fod dryswch ynglŷn â chyfrifoldebau pob asiantaeth ar y safle.

6. Er efallai na fydd achosion o achub o ddŵr ac eithrio dŵr llifogydd yn digwydd i'r un graddau, nac yn cynhyrchu'r un lefel o bryder ymhlith y cyhoedd, mae'r sefyllfaoedd hyn yn dal i allu bod yn berygl i fywydau'r rhai yn y sefyllfaoedd hynny. Bydd FRAs yn defnyddio llawer o'r un technegau, offer a sgiliau i

[4] Mae llifogydd dŵr wyneb yn digwydd pan nad yw dŵr yn draenio trwy'r systemau draenio arferol nac yn suddo i mewn i'r ddaear, ond yn hytrach yn llifo dros y ddaear.
[5] http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/fire/151125-fire-rescue-framework-2016-cy.pdf

ymateb i'r achosion hyn ag y byddent yn eu defnyddio wrth ymateb i lifogydd. Ni allem gyfiawnhau gwahaniaethu rhwng achub pobl o ddŵr llifogydd ac achub pobl o ddyfroedd mewndirol megis afonydd a llynnoedd. Byddai hynny'n fympwyol ac yn anodd ei weithredu'n ymarferol, er enghraifft, pan fo'r dyfroedd hynny yn gysylltiedig â llifogydd, megis afonydd yn eu llif. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r ddyletswydd newydd gwmpasu achosion o achub o ddŵr mewndirol yn ogystal ag ymatebion i lifogydd.

## Y DDYLETSWYDD NEWYDD

7. Byddai'r ddyletswydd newydd arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs wneud darpariaeth ar gyfer ymateb i argyfyngau sy'n codi yn sgil llifogydd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â mathau penodol o ddyfroedd mewndirol.

### *PŴER I OSOD DYLETSWYDD NEWYDD*

8. Mae Adrannau 6-8 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") yn gosod dyletswyddau ar FRAs mewn perthynas â thanau a damweiniau traffig ar y ffordd. Mae Adran 9 o Ddeddf 2004 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno swyddogaethau ychwanegol yn ymwneud ag argyfyngau ar FRAs trwy Orchymyn. Defnyddiodd Gweinidogion Cymru y pŵer hwn wrth lunio Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a osododd ddyletswyddau ar FRAs i ymdrin ag argyfyngau yn ymwneud ag adeiladau wedi dymchwel, tramiau, trenau ac awyrennau ac arllwysiadau cemegol a sylweddau eraill.

9. Byddai'r ddyletswydd newydd arfaethedig mewn perthynas â llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol yn ymestyn pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 9. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn ymarfer eu pŵer o dan yr adran hon.

10. Felly, byddai'r Gorchymyn drafft rydym hefyd yn ymgynghori yn ei gylch (Atodiad 1) yn diwygio gorchymyn gwreiddiol 2007 i gynnwys argyfyngau llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol. Byddai hyn yn golygu y byddai'r holl ddyletswyddau ychwanegol a osodir ar FRAs o dan adran 9 ar gael mewn un lle er hwylustod.

### *DYFROEDD Y BYDDAI'R DDYLETSWYDD YN BERTHNASOL IDDYNT*

11. Byddai'r ddyletswydd newydd yn berthnasol i ddŵr llifogydd ac i rai dyfroedd mewndirol.

#### Dŵr llifogydd

12. Gall llifogydd ddigwydd mewn unrhyw sefyllfa lle mae tir nad yw fel arfer wedi'i orchuddio â dŵr yn cael ei orchuddio â dŵr o unrhyw darddle. Mae diffiniad o lifogydd yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft.

## Dŵr mewndirol

13. Mae FRAs yn gweithredu ar y tir yn bennaf. Ar wahân i rai eithriadau, nid yw eu dyletswyddau diffodd tân yn ymestyn i'r môr nac i gychod neu longau[6]. Mae'r un peth yn wir am eu gallu i achub o ddŵr. Er bod FRAs yn gallu achub pobl o ddŵr mewndirol, nid oes ganddynt yr offer na'r gallu i achub pobl o'r môr. Gwylwyr y Glannau, yr RNLI ac adnoddau milwrol sy'n gyfrifol am hynny, ac mae ganddynt yr offer priodol i gyflawni'r swyddogaeth honno.

14. Er bod FRAs ac asiantaethau eraill eisoes yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cydgysylltu eu gweithgareddau lle bo hynny'n briodol, mae'n bwysig ein bod yn diffinio'n glir i ba ddyfroedd mewndirol y bydd y ddyletswydd yn berthnasol.

15. Rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r term "dŵr mewndirol" yn y Gorchymyn, gan fabwysiadu'r diffiniad canlynol:-

    mae dŵr mewndirol yn golygu –
    (a) afonydd, nentydd a chamlesi; a
    (b) llynnoedd, cronfeydd dŵr a chwareli sydd wedi'u llenwi â dŵr.

16. Felly, ni fyddai'r ddyletswydd yn cwmpasu unrhyw gyfleusterau dŵr artiffisial a adeiladwyd yn benodol ar gyfer nofio, ymdrochi neu badlo. Er bod y cyfleusterau hyn yn gallu bod yn beryglus, perchnogion neu weithredwyr cyfleusterau o'r fath, megis cynorthwywyr pyllau nofio, achubwyr bywyd ac ati, fyddai fel arfer yn gyfrifol am achub pobl o'r cyfleusterau hynny.

17. Er y byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn ymestyn i ddŵr mewndirol yn unig, fel yr amlinellir uchod, mae hi hefyd yn bwysig nodi na fyddai FRAs yn cael eu hatal rhag ymateb i achosion eraill o achub o ddŵr o dan eu pwerau presennol i ymateb i ddigwyddiadau eraill o dan adran 11 o Ddeddf 2004. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y gallai FRAs ymateb i achosion o achub o ddŵr mewn porthladdoedd neu ddyfroedd arfordirol eraill pe baent ar gael ac yn gallu gwneud hynny.

18. Rydym wedi ystyried diffiniadau eraill o "ddŵr mewndirol", fel a ganlyn.

    - Yn gyntaf, gallem ei ddiffinio fel unrhyw ddŵr o fewn ardal FRA. Gan fod ardaloedd FRAs yn cyfateb i ardaloedd awdurdodau lleol, byddai hyn yn ymestyn i'r marc cymedr distyll o amgylch arfordir Cymru, ond yn hepgor (er enghraifft) Afon Menai ac aberoedd Afonydd Dyfrdwy a Hafren y tu hwnt i'r marc cymedr distyll. Mae hyn yn gwneud pethau'n fwy syml a chlir gan fod mapiau Arolwg Ordnans yn dangos y ffin yn glir. Fodd bynnag, byddai'n cynnwys rhannau sylweddol o fôr rhwng y marciau cymedr distyll a phenllanw, er enghraifft ym Mae Abertawe ac oddi ar yr arfordir rhwng Bangor a Llanfairfechan. Felly, gallai'r ddyletswydd ragori ar alluogrwydd presennol FRAs.

    - Yn ail, gallem ddefnyddio dosbarthiadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau o ddŵr mewndirol fel yr amlinellir yn y Merchant Shipping Notice

[6] Mae gan FRAs bwerau, ond nid dyletswyddau, i ddiffodd tanau ar y môr (e.e. ar longau, rigiau olew, tyrbinau ar y môr neu strwythurau eraill) yn a20 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Fodd bynnag, mae llong sydd wedi angori mewn porthladd o fewn ardal diriogaethol yr FRA, a byddai diffodd tân arni yn rhan o ddyletswyddau arferol yr FRA.

(MSN)1837[7] yr MCA. Mae'r rhain yn adlewyrchu natur y dyfroedd dan sylw a'r mathau o longau sy'n gallu eu defnyddio'n ddiogel yn well. Fodd bynnag, mae'r dosbarthiadau'n dibynnu ar gyfres gymhleth o ddiffiniadau yn ymwneud â dyfnder y dŵr ac uchder tonnau mawr. Nid yw dyfroedd unigol yn cael eu dosbarthu fel arfer ac, er efallai bod y dosbarthiad hwn yn glir mewn llawer o achosion, mewn achosion eraill gallai fod yna lefel annerbyniol o amheuaeth.

19. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn ffafrio'r naill ddull na'r llall, ond byddem yn ddiolchgar am eich barn ar y mater.

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar y cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i ddŵr llifogydd a dŵr mewndirol yn unig, yn unol â'r diffiniad yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn unrhyw ddiffiniad arall o "ddŵr mewndirol" y credwch y gallai fod yn fwy priodol.

(Gweler y cwestiynau ar ddiwedd y Ddogfen Ymgynghori hon).

***NATUR Y DDYLETSWYDD***

20. Mae llifogydd yn ddigwyddiad cyffredin mewn sawl rhan o Gymru. Yn wahanol i dân, mewn llawer o achosion efallai na fydd dŵr llifogydd yn fygythiad o gwbl, ac efallai na fydd angen i'r FRA ymateb mewn unrhyw ffordd. Felly, nid oes angen ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs ymateb i bob achos o lifogydd. Yn ogystal, ni fydd hi'n ofynnol i FRAs ymateb i bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â dŵr mewndirol.

21. Mae hynny'n adlewyrchu'r pŵer i greu'r ddyletswydd newydd yn adran 9 o Ddeddf 2004. Mae hyn wedi'i gyfyngu i swyddogaethau yn ymwneud ag argyfyngau. Yn Adran 58 o Ddeddf 2004, mae argyfwng yn cael ei ddiffinio fel digwyddiad neu sefyllfa sy'n achosi neu'n debygol o achosi:-

    a) marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol i un unigolyn neu fwy, neu;

    b) niwed difrifol i'r amgylchedd (gan gynnwys bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid).

22. Rydym yn cynnig y dylai'r ddyletswydd ganolbwyntio ar argyfyngau sy'n gysylltiedig â llifogydd a dyfroedd mewndirol sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, niwed difrifol neu salwch difrifol i bobl h.y. rhan gyntaf adran 58 yn unig. Gallai FRAs ymateb i lifogydd a allai wneud niwed difrifol i'r amgylchedd a/neu iechyd planhigion ac anifeiliaid yn unig o dan eu pŵer cyffredinol i ymateb i 'ddigwyddiadau' eraill yn Neddf 2004[8]. Byddem yn eu hannog i wneud hynny os oes digon o adnoddau ar gael. Ond credwn y byddai gwneud hyn yn ofyniad rhy feichus. Byddai'n wahanol iawn i'r arfer presennol ac mae'n debygol y byddai angen i FRAs ddatblygu gallu newydd eang.

---

[7] Merchant Shipping Notice (MSN) 1837 yr MCA: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/440225/1837.pdf

[8] Adran 11 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

23. Fodd bynnag, mae llawer o ffyrdd y gallai llifogydd a dyfroedd eraill achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, a byddai'r rhain yn cael eu cwmpasu yn y ddyletswydd arfaethedig.

24. Yn amlwg, mae hyn yn cynnwys achosion lle mae dŵr, waeth a yw'n ddŵr llifogydd ai peidio, yn gallu achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol (e.e. trwy foddi neu hypothermia). Fel arfer, byddai hyn o ganlyniad i bobl yn cael eu dal mewn dŵr neu yn ymyl dŵr neu mewn llong sydd mewn trafferth. Fel arfer, byddai ymateb i ddigwyddiad o'r fath yn golygu achub unigolyn neu unigolion a/neu gael gwared ar ddŵr sy'n fygythiad i fywyd neu iechyd y bobl sydd mewn perygl.

25. Fodd bynnag, byddai'r ddyletswydd hefyd yn cwmpasu digwyddiadau lle mae dŵr llifogydd yn achosi difrod sydd, yn ei dro, yn gallu achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddifrod i seilwaith neu ffyrdd yn cau sy'n gallu atal neu amharu ar allu'r gwasanaethau brys i ymateb i argyfyngau, neu golli pŵer sy'n gallu arwain at golli systemau gwresogi domestig. Mae'n debygol y byddai ymateb i ddigwyddiadau o'r fath yn golygu dargyfeirio neu gael gwared ar ddŵr fel y gellid diogelu seilwaith neu ei adfer fel y gellid ei ddefnyddio unwaith eto.

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar y cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i argyfyngau sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, boed hynny trwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â dŵr neu oherwydd difrod arall y gallai llifogydd ei achosi.

(Gweler y cwestiynau ar ddiwedd y Ddogfen Ymgynghori hon).

26. Rydym yn cynnig y dylai'r ddyletswydd gael ei fframio yn yr un modd â dyletswyddau presennol FRAs i ymateb i danau a damweiniau traffig ar y ffordd o dan adrannau 7 ac 8 o Ddeddf 2004. Felly, cynigir y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs ddatblygu a chynnal y gallu i ymdrin â llifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol, yn hytrach nag ymateb mewn ffordd benodol yn unig. Mae'r system hon yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd yng Ngorchymyn 2007. Felly, cynigir y dylai Erthygl 4 o Orchymyn 2007 fod yn berthnasol i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr. Mae Erthygl 4 yn ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs wneud darpariaeth i:-

- sicrhau darpariaeth personél, gwasanaethau a hyfforddiant sydd eu hangen i fodloni'r holl ofynion rhesymol;
- gwneud trefniadau i ymdrin â galwadau am help;
- gwneud trefniadau i gael y wybodaeth angenrheidiol; a
- gwneud trefniadau i sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i atal neu gyfyngu ar y difrod i eiddo o ganlyniad i gamau a gymerir yn unol â darpariaeth o'r fath.

27. Mae'n bwysig nodi y byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn gwneud darpariaeth i ymdrin â llifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol. Byddai'n caniatáu i FRAs benderfynu ar yr ymateb priodol yn seiliedig ar yr amgylchiadau ym mhob achos, yr un fath ag yn achos diffodd tân.

28. Yn y bôn, rydym wedi fframio'r ddyletswydd arfaethedig mewn ffordd sy'n cipio a ffurfioli arferion presennol FRAs a'r gwasanaethau y gallant eu darparu o fewn y galluoedd sydd ganddynt eisoes. Felly, credwn na ddylai cydymffurfio â'r ddyletswydd arfaethedig gyflwyno unrhyw broblemau na heriau newydd i FRAs.

> Ydych chi'n credu y dylai'r ddyletswydd i "wneud darpariaeth" mewn perthynas â llifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol adlewyrchu'r system sydd eisoes ar waith ar gyfer ymateb i danau a damweiniau traffig ar y ffordd?
>
> (Gweler y cwestiynau ar ddiwedd y Ddogfen Ymgynghori hon).

29. Roedd Gorchymyn gwreiddiol 2007 yn cynnwys (yn erthygl 5) gofyniad i bob FRA ymateb i argyfyngau y tu allan i'w ardal os oedd ganddo'r asedau a'r gallu i wneud hynny. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ceisio ymestyn y gofyniad hwn i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr. Roedd Gorchymyn 2007 yn ymdrin â digwyddiadau a oedd yn gofyn am asedau hynod arbenigol sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled Cymru i fodloni gofynion gwydnwch cenedlaethol. Fel arfer, nid yw hynny'n wir mewn perthynas â llifogydd ac achub o ddŵr. Mewn unrhyw achos, mae gan FRAs drefniadau lleol ar waith i reoli'r defnydd o asedau ar draws ffiniau FRA, a chredwn fod y rhain yn ddigonol.

> Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar ein cynnig i beidio ag ymestyn Erthygl 5 o Orchymyn 2007 i argyfyngau llifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr.
>
> (Gweler y cwestiynau ar ddiwedd y Ddogfen Ymgynghori hon).

## MATERION ERAILL

### *CYDGYSYLLTU*

30. Wrth gwrs, bydd achos nodweddiadol o lifogydd neu achub o ddŵr yn ennyn ymateb gan asiantaethau eraill, yn ogystal â'r FRA: er enghraifft, bydd gan yr heddlu, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gyfraniad i'w wneud. Rydym wedi ystyried a ddylid cynnwys yn y ddyletswydd newydd ofyniad i FRAs gydgysylltu gwaith yr asiantaethau hyn. Fodd bynnag, credwn na fyddai hyn yn ymarferol. Mae hyn oherwydd:-

    - Er bod gan Weinidogion Cymru bwerau i osod dyletswyddau newydd ar FRAs, nid oes ganddynt bwerau i osod dyletswyddau ar ymatebwyr eraill i gydgysylltu â nhw. I bob pwrpas, byddai hyn yn golygu gosod dyletswydd ar FRAs na allent gydymffurfio â hi.

- Ar hyn o bryd, mae FRAs ac ymatebwyr eraill yn defnyddio'r '*Joint Emergency Services Interoperability Programme*' ("JESIP") mewn argyfyngau. Mae JESIP yn darparu athrawiaeth ar y cyd yn amlinellu beth y dylai staff rheng flaen ei wneud a sut mewn amgylchedd gwaith amlasiantaethol er mwyn cyflawni'r gallu i ryngweithredu sy'n hanfodol ar gyfer ymateb ar y cyd. Mae hyn yn caniatáu dull mwy hyblyg a haws ei addasu lle bydd swyddog arweiniol unrhyw ddigwyddiad, ar lefel weithredol, dactegol neu strategol, yn cael ei benodi o'r asiantaeth fwyaf priodol yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw'r sefyllfa.

| |
|---|
| Nid ydym yn cynnig cynnwys dyletswydd i arwain neu gydgysylltu'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd neu achosion o achub o ddŵr. Fodd bynnag, byddai gennym ddiddordeb yn eich barn ar hyn.<br><br>(Gweler y cwestiynau ar ddiwedd y Ddogfen Ymgynghori hon). |

### *CYNGOR AR LINIARU LLIFOGYDD A DIOGELWCH DŴR*

31. Mae adran 9 o Ddeddf 2004 yn ymwneud ag argyfyngau yn benodol ac mae'n rhoi grym i Weinidogion Cymru, yn dilyn ymgynghoriad, wneud Gorchymyn sy'n dirprwyo swyddogaethau yn ymwneud ag *argyfyngau* i FRAs. Felly, ni fyddai dyletswydd o'r fath yn ymestyn i FRAs yn darparu cyngor ar liniaru llifogydd neu fesurau diogelwch dŵr. Fodd bynnag, does dim rheswm pam na all FRAs ddarparu cyngor o'r fath mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, ac mae yna enghreifftiau o hyn yn digwydd ledled Cymru.

## CAMAU NESAF

32. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymgyngoreion i fynegi eu barn a chyflwyno unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â phob agwedd ar yr ymgynghoriad hwn erbyn 22 Rhagfyr 2016. Yn arbennig, croesewir sylwadau ar y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1**

Beth yw eich barn chi am y diffiniad arfaethedig o ddyfroedd mewndirol yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft?

**Cwestiwn 2**

A oes gennych chi unrhyw gynigion amgen ar gyfer diffiniad o "ddyfroedd mewndirol"?
Rhowch fanylion.

**Cwestiwn 3**

A oes gennych chi unrhyw farn ar y cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i argyfyngau sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, boed hynny trwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â dŵr neu oherwydd difrod arall y gallai llifogydd ei achosi?

**Cwestiwn 4**

Ydych chi'n credu y dylai dyletswydd i "wneud darpariaeth" ar gyfer achub o lifogydd ac o ddŵr mewndirol adlewyrchu'r ddyletswydd sydd eisoes ar waith i ymateb i danau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd?

**Cwestiwn 5**

Ydych chi'n cytuno nad oes angen gosod dyletswydd ar FRAs i ymateb i lifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr ar draws ffiniau FRA fel yr amlinellir yn Erthygl 5 o Orchymyn 2007?

**Cwestion 6**

Ydych chi'n cytuno na ddylem gynnwys dyletswydd i arwain neu gydgysylltu'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd neu achosion o achub o ddŵr?

**Cwestiwn 7**

A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Gorchymyn drafft?

**Cwestiwn 8**

Ni chredwn fod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg na'i fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ni chredwn y gallai gael ei **ail**-lunio neu ei ddiwygio i gael effeithiau cadarnhaol**.** Os ydych chi'n anghytuno, **byddem** yn croesawu'ch sylwadau ar y mater hwn.

**Cwestiwn 9**

Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech chi eu codi yn y maes hwn?